# Y Rhaglen Ysgolion a Theuluoedd

## Cwestiynau Cyffredin

Rydym wedi darparu atebion i rai Cwestiynau Cyffredin am wahanol agweddau ar y Rhaglen Ysgolion a Theuluoedd.

### Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

**Beth sydd yn y Pecyn Cymorth Mathemateg i'r Teulu?**

- Dros 200 o weithgareddau mathemateg 'bob dydd' i bant a'u teuluoedd eu cyflawni gyda'i gilydd.
- Pecynnau grŵp blwyddyn llawn, gydag un gweithgaredd yr wythnos yn ystod y tymor, ar gyfer y dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6.
- Taflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr am roi hwb i'w hyder eu hunain gyda rhifau a chefnogi plant i feithrin agweddau cadarnhaol at fathemateg.

**Sut y dylid defnyddio'r llyfrau lloffion?**

Bydd pob disgybl sy'n cymryd rhan yn cael llyfr lloffion gan National Numeracy. Gellir gludo'r gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu yn y llyfr lloffion. Rydym yn argymell argraffu gweithgareddau mewn maint A4 neu A5. Mae'r llyfr lloffion yn cynnwys tudalennau gwag. Diben hyn yw annog gwahanol ffurfiau cofnodi. Mae lle diderfyn yn rhoi cyfle i'r disgybl ddatblygu dyfalbarhad.

**A oes angen i'r athrawon farcio'r gweithgareddau?**

Nid oes disgwyl i athrawon farcio'r gweithgareddau, ond gall cydnabyddiaeth (sylwad neu sticer ymdrech bach) fynd yn bell wrth annog ymgysylltiad rhieni.

Mae National Numeracy wedi rhoi tystysgrif i'r ysgolion i'w rhoi i'r disgyblion sy'n cymryd rhan. Gellid defnyddio hon mewn gwasanaethau dathlu wythnosol.

## Gweithdy ‘Helpu Eich Plentyn i Fwynhau Mathemateg!’

**Pa mor hir yw’r gweithdy?**

Ni ddylai’r gweithdy bara mwy na 45-60 munud.

**Beth y mae arnaf ei angen ar gyfer y gweithdy?**

Bydd angen i chi lawrlwytho sleidiau’r cyflwyniad a chynllun y gweithdy. Gallwch hefyd ddefnyddio a golygu’r poster a’r templedi negeseuon i roi gwybod i’r rhieni a’r gofalwyr am y gweithdy.

Rydym yn argymell cyflwyno’r gweithdy naill ai yn y neuadd neu mewn ystafell ddosbarth sydd â sgrin i gyflwyno’r sleidiau.

**Beth y mae angen i mi ei ddweud wrth National Numeracy am y gweithdy?**

Mae angen i National Numeracy gael gwybod dyddiad y gweithdy/gweithdai a nifer y rhieni a gofalwyr sy’n bresennol.

Anfonwch yr wybodaeth hon mewn e-bost i schoolsandfamilies@nationalnumeracy.org.uk cyn gynted â phosibl ar ôl y gweithdy.

## Fforymau

**Pryd y cynhelir y Fforymau, ac a fyddant ar-lein?**

Cynhelir pob Fforwm ar-lein.

Galwch ddod o hyd i ddyddiadau’r Fforymau yng nghalendr y rhaglen.

**Beth y mae arnaf ei angen i baratoi ar gyfer y Fforwm?**

Yn dilyn pob Fforwm, anfonir holiadur atoch i’w llenwi, sy’n ymwneud â gweithgarwch diweddar yn eich ysgol.

## Gwirfoddoli

**Pa weithgareddau y gall y gwirfoddolwyr eu cyflwyno mewn ysgolion?**

Gall gwirfoddolwyr o blith ein partneriaid corfforaethol gyflwyno dwy sesiwn sy'n ysbrydoli plant i weld gwerth mathemateg yn y byd go iawn.

Gwasanaeth 'Fy Stori Mathemateg'

Mewn gwasanaeth 15 munud ar gyfer CA2, bydd y gwirfoddolwr yn rhannu eu taith rhifedd eu hunain, yr hyn y mae eu swydd yn ei olygu, yr hyn y maent yn ei wneud yn eu hamser sbâr, a'r modd y mae hyn oll yn cynnwys rhifedd. Byddant hefyd yn annog y plant i feddwl am y modd y maent yn defnyddio rhifedd bob dydd.

Sesiwn ystafell ddosbarth ryngweithiol: 'Mathemateg yn y Byd Go Iawn'

Cynlluniwyd y wers CA2 50-60 munud hon i gael ei harwain gan yr athro a'i chefnogi gan ddau wirfoddolwr. Bydd y plant yn cwrdd â chymeriadau, rhai mewn bywyd go iawn a rhai'n ffuglen, ac yn archwilio'r fathemateg a ddefnyddir ganddynt yn eu swyddi a'u hobïau. Caiff y plant eu rhannu'n grwpiau bach i gymryd rhan mewn gweithgaredd carwsél, gyda phob grŵp yn edrych ar y cymeriadau gwahanol yn ei dro. Bydd gweithgaredd myfyriol byr yn dilyn y carwsél.

**Pa hyfforddiant y mae'r gwirfoddolwyr wedi'i gwblhau?**

Bydd pob gwirfoddolwr wedi cael hyfforddiant sy'n cwmpasu:

- Problemau rhifedd yn y DU
- Gorbryder ynghylch mathemateg
- Sut i gefnogi hyder mewn sgiliau rhifedd
- Cefnogi plant i feithrin agweddau cadarnhaol at fathemateg
- Diogelu
- Cyflwyno gweithgareddau

Nodwch nad yw ein gwirfoddolwyr wedi bod yn destun gwiriad DBS ac felly bydd angen i rywun priodol fod gyda nhw bob amser.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y Rhaglen Ysgolion a Theuluoedd, anfonwch neges e-bost i schoolsandfamilies@nationalnumeracy.org.uk.